**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Sharon Thomas 01352 702324
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Cyng Tony Sharps (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Ron Davies a Ralph Small

Dydd Iau, 14 Hydref 2021

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**
**DYDD MERCHER, 20FED HYDREF, 2021 10.00 AM**

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we a bydd 'presenoldeb' wedi'i gyfyngu i Aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau hynny o'r Cyngor sydd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am wahoddiad.  Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw'r rhain yn cael siarad ai peidio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

| 1 | **YMDDIHEURIADAU** | |
|---|---|---|
| | **Pwrpas:** | Derbyn unrhyw ymddiheuriadau. |

| 2 | **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)** | |
|---|---|---|
| | **Pwrpas:** | I derbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny. |

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Mae'r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio)

Niwed a gofid i'r unigolyn os datgelir gwybodaeth bersonol. Gall datgelu gwybodaeth ragfarnu'r Cyngor wrth iddynt wneud penderfyniad gwrthrychol.

| 3 | **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)** (Tudalennau 5 - 36) | |
|---|---|---|
| | **Pwrpas:** | Er mwyn i'r Aelodau ystyried cynnal Gyrrwr Llogi Preifat / Cerbyd Hacni (ar y Cyd) mewn perthynas â gwybodaeth a ddaeth i law gan Uned Drafnidiaeth Integredig Cyngor Sir y Fflint. |

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.***

**<u>Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd</u>**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.  Bydd Cyfreithiwr y Cyngor hefyd yn bresennol.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw.  O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Gan fod y cyfarfod yn un cyfrinachol ni fydd yn cael ei ffrydio'n fyw.